

Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr a Chymry Cymraeg i bawb ddarllen

e-bost: bobwennol@ntlworld.com

Cyfrol 2 Rhif 1

Yn rhad ac am ddim

Ebrill 2021

Penblwydd Hapus!

Mae'r Wennol yn un flwydd oed heddiw ac mae'n anodd credu sut wnaeth un syniad mis Mawrth diwethaf datblygu i fod yn gylchlythyr sydd wedi dod allan, ar y dot, pob mis ers hynny. Mae llawer wedi cyfrannu dros y flwyddyn a dw i'n hynod o ddiolchgar iddyn nhw, maen nhw wedi bod yn frwdfrydig dros ben. Does dim llawer o bobl yn ddigon hyderus i ysgrifennu yn y Gymraeg a dysgwyr yw rhan fwyaf o'r cyfranwyr.

Fel cenedl mi ydan ni angen pobl hyderus, pobl sydd yn barod i fentro, pobl sydd yn barod i wneud camgymeriadau ac yn fodlon dysgu a symud ymlaen i lefelau uwch.

Ac mae ysgrifennu yn ffordd dda o ehangu eich geirfa mewn ffordd hamddenol, yn wahanol iawn i'r profiad o siarad. Pan dach chi'n siarad mae'n rhaid i chi feddwl yn gyflym neu bydd rywun wedi neidio i mewn a gorffen eich brawddeg. Pan dach chi'n ysgrifennu gallech chi wneud hynny efo paned o goffi wrth un ochr a geiriadur ar yr ochr arall. Pan dach chi'n methu cofio'r gair am rywbeth pwysig mae'r ateb yn y geiriadur. Mae'r geiriadur wrth eich ochr.

Mae ysgrifennu yn grefft, ac yn grefft bleserus a rhad - does dim ond rhaid cael pensil a phapur!



The Wennol is one year old today and it is difficult to believe how one idea a year ago developed to be a newsletter which has appeared, on the dot every month since then. Many have contributed during the year and I am very grateful to them. They have been extremely enthusiastic. Not many people are brave enough to write in Welsh and the great majority of contributors are learners.

As a nation we need people with confidence, people willing to have a go, to make mistakes, to learn and progress to a higher level.

And writing is an excellent way to widen your vocabulary in a leisurely way, very different to the experience of talking. When you're talking you have to think

quickly or someone will step in and finish your sentence. When you write you can do that with a cup of coffee on your one side and a dictionary on the other. When you are unable to remember a word the answer is in the dictionary. The dictionary is by your side.

Writing is a craft, it is pleasurable and also inexpensive.

All you need is a pencil and a piece of paper!

Dysgwch wrth Ddarllen

gan Rob Evans



Mi oeddwn i'n gwybod am bwysigrwydd darllen blynyddoedd cyn i mi ddechrau fel tiwtor. Fel dw i

wedi sôn llawer gwaith o'r blaen roedd darllen yn hollbwysig i fy nhaith yn ôl at yr iaith a doedd dim ffordd arall beth bynnag. Doedd dim dosbarth nos Cymraeg yn Kidderminster ar y pryd ac roeddwn i wir yn despret. Petasai ddosbarth wedi bod yna dydw i ddim yn meddwl bydda i wedi dysgu gymaint.

Roedd hiraeth mawr arnaf fi i symud yn ôl i Gymru ond gan roedd gen i fusnes yn Kidderminster doedd pethau ddim mor hawdd â chael swydd rywle yng Nghymru. Roedd llawer o'r llyfrau roeddwn i'n darllen ar y pryd yn llyfrau antur wedi ei seilio mewn rhan o Gymru felly roedd fy nychymyg yn mynd â fi yn ôl i le oeddwn i eisiau bod.

Peth da yw dychymyg!

Ond nid dyna oedd yr unig fantais. Yn wahanol iawn i wrando ar y radio mae'r geiriau ar y dudalen yn aros yna. Ar y radio mae llawer o bobl yn siarad yn rhy gyflym ac yn aneglur hefyd ac unwaith dach chi'n colli'r trywydd dach chi ar goll.

Mae darllen yn llawer mwy caredig!

Allech chi eistedd i lawr o flaen y tân, paned wrth eich ochr a darllen yn hamddenol. Petasech chi'n syrthio i gysgu mae'r dudalen yn dal yna, cyn belled nad yw'r llyfr wedi syrthio ar y llawr. Y tric yw peidio â gwneud darllen yn fwrn. Peidiwch ag

chwilio am bob gair diarth yn y geiriadur neu mi fydddech chi'n colli'r plot - yn llythrennol.

Pan dach chi wedi bod yn crafu'ch pen i drio datrys cliw mewn croesair ac yn methu'n llwyr mae'n iawn i chi fynd at y tudalennau cefn i chwilio am yr ateb. Wrth wneud hynny weithiau

mae'n gwneud pethau'n haws i ddatrys rhai o'r cliwiau eraill. Yr un peth sydd yn digwydd wrth ddarllen, weithiau mae mynd at y geiriadur am un gair mewn brawddeg galed yn rhoi cliw i'r geiriau eraill. Pan mae hynny'n digwydd mae'n golygu bod eich ymennydd yn gweithio yn yr un ffordd wnaethoch chi ddysgu eich iaith gyntaf.


Mae'n bwysig i chi roi'r cyfle i'ch ymennydd gwneud hynny.

Mae'n bwysig hefyd i ddechrau efo llyfr sydd yn ddoniol ac sydd wedi cael ei ysgrifennu yn enwedig ar gyfer dysgwyr. Llyfr fel 'Bywyd Blodwen Jones'.

Mae Blodwen yn dysgu Cymraeg ac mae hi'n frwdfrydig am reswm arbennig. Mae hi wedi syrthio mewn cariad â'r tiwtor!

Pan nes i ddweud wrth fy nosbarth yn Llanandras ein bod ni'n mynd i ddarllen llyfr fel rhan o'r cwrs roedden nhw llawn ofn am ryw reswm. Roedden ni'n treulio ugain munud olaf y dosbarth yn darllen y llyfr, pawb yn cymryd tro i ddarllen yn uchel. Yn fuan iawn roedden nhw'n cael hwyl. Er syndod i mi pan oedd y dosbarth wedi cyrraedd hanner ffordd roedd rhan fwyaf ohonyn nhw wedi cyrraedd y diwedd. Yn amlwg doedden nhw ddim wedi gallu rhoi'r llyfr i lawr!

Mae'r llyfr mewn tafodiaith y Gogledd ond peidiwch, peidiwch, peidiwch chi yn y De meddwl na allech chi ei ddarllen. Yn hollol groes i beth mae pobl yn dweud nid yw'r iaith yn hollol



[Type here]

Y Wennol

Cyfrol 2 Rhif 1

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

wahanol. Iawn, mae geiriau gwahanol ond mae Saesneg yr un peth, mae trigolion Cernyw yn siarad yn wahanol i bobl gogledd Lloegr. Mater o ddod i arfer ydy o ac mae'n llawer haws i wneud hynny wrth ddarllen.

Ac er bod yn deg i chi yn y De, peidiwch chi yn y Gogledd meddwl bod llyfrau yn nhafodiaith y De yn rhy anodd. Mae bywyd Cymraeg yn fwy pleserus ac yn fwy cyflawn os dach chi i gyd yn gallu deall eich gilydd! Ewch amdani!

Dw i'n siŵr y byddech chi'n cael y llyfr yn eich llyfrgell leol. Os na, ewch at eich siop llyfrau lleol, byddech yn cael cyfle i sgwrsio yn Gymraeg yna hefyd. Na fydddech yn gwastraffu'ch arian, mae'n llyfr fydddech chi'n hapus i ddarllen llawer gwaith.

Felly mae darllen llyfrau yn helpu chi i ddatblygu eich geirfa ond meddyliwch am hyn. Mae'r iaith yn llawer mwy amlwg yng Nghymru nag oedd degawdau yn ôl ac mae'n rhaid i ni ddiolch i'r bobl oedd yn fodlon mynd i'r carchar dros yr iaith. Mi oedd llawer ohonyn nhw ac yn wir dw i'n teimlo dylen ni ddysgu amdany'n nhw. Nhw sydd wedi sicrhau bod ni 'yma o hyd'. Hebddyn nhw bydd dim iaith i chi ddysgu erbyn hyn!

Felly ewch ati i ddarllen a dysgu ond byddwch yn ofalus achos mae'n hawdd iawn i fynd dros ben llestri efo llyfrau. Mae gen i lond tŷ o lyfrau erbyn hyn ond pob un yn ffrind annwyl!

Pob lwc a phob hwyl i chi!

I Ddysgwyr y Flwyddyn Gyntaf

You will notice that some of the words here are different to what you have learnt because I'm from north Wales but don't worry, it isn't that different when you get used to it. This is just a framework, just read it as you have learnt it – it will be worth it because it increases your vocabulary and gets you used to the patterns in sentences.

Cerdded ar lan y Môr



Dw i'n hoffi cerdded ar lwybr yr arfordir. I mi y rhan gorau yw llwybr sir Benfro.

Roeddwn i'n byw yn Saundersfoot yn fy arddegau ac yn hoffi cerdded o draeth Coppet Hall i Wisemansbridge.

Mae'n rhaid cerdded trwy ddau dwnnel. Un byr ac un hir. Dyma sut oedd y glo yn mynd o Stepside i harbwr Saundersfoot blynnyddoedd yn ôl.

Oedd, mi oedd pyllau glo yn yr ardal hyfryd yma. Mae'n anodd credu erbyn hyn. Roedd pobl yn gweithio yn y pyllau glo tan 1935.

Pan wnaethon ni symud i Saundersfoot roedd tomennydd gwastraff dros y lle i gyd. Roedden ni'n cael hwyl yn creu traciau i'r beics ac yn rasio!

Dewch am dro trwy'r twneli. Mae'r un cyntaf yn hawdd. Ond mae'r ail yn fwy tywyll. Dach chi ddim yn gweld golau yn y pen arall. Ond dach chi'n lwcus achos mae goleuadau. Mae'r trydan yn dod o baneli solar.

Dyn ni wedi cyrraedd y pen draw rŵan a dach chi'n gweld y trac yn mynd yr holl ffordd i Wisemansbridge.

Mae tafarn yn Wisemansbridge a dw i'n gwybod eich bod chi'n sychedig!

Fi sy'n prynu'r rownd gyntaf!

If you would like to try your hand at writing something I would be very pleased to accept your contribution. I wouldn't expect anything beyond what you have learned so far. By using what Welsh you have you will build up confidence and the more confident you feel then the happier you will be with your progress.

Your contribution will help others like you – the more there is to read, the more people will learn.

Geirfa

Llwybr yr arfordir – the coast path

Arddegau – teens

Byr – short

Hir – long

Pyllau glo – coal pits

Ardal – area

Anodd credu – hard to believe

Tomen gwastraff – waste tip

Tywyll – dark

Trydan – electricity

Sychedig – thirsty

I ddysgwyr yr ail flwyddyn

Brunch Dubai Dydd Gwener

gan Cerys Paschali



Y tro nesaf y byddwch chi'n sownd wrth eich desg, amser cinio a brechdan yn eich llaw, yn breuddwydio am noson mas yn y dafarn i ddathlu'r penwythnos, cofiwch fod y penwythnos eisoes wedi cychwyn yn Dubai. Mae dydd Gwener yn sanctaidd yn y byd Moslemaidd, pan mae pobl leol yr Emiraethau'n mynd i'r mosg, ond ar gyfer yr *expats* yn Dubai mae'n amser i dalu gwrogaeth i sefydliad hollol wahanol, sef Brunch Dydd Gwener.



Am bris penwythnos ym Mharis i ddau, dyn ni'n cael pedwar awr o fwyd a diod ddiderfyn mewn amgylchedd mwyaf moethus. Mae pob gwesty yn y ddinas yn taflu ei ddrysau ar agor i hedonistaidd o bob cwr o'r byd ar ôl wythnos brysur o waith caled. Mewn gŵyl o ymblesera a gyda band arddwrn â chôt lliw ("Pecyn alcohol neu ddiodydd meddal, Syr?"), bant â ni!



Mewn neuaddau bwyta sy'n atseinio, dyn ni ar y trê'n grefi am weddill yr wythnos yn pasio gorsafoedd coginio amrywiol a diddiwedd. Mae'r byrddau wedi'u gorchuddio â lliain gwyn trwm yn plygu o dan bwysau pentyrrau o wystrys a physgod cregyn. Wrth ruthro heibio platiau o saladau egsotig, dyn ni'n cyrraedd y cownter cyri neu rost dydd Sul i gael ein gweini gan gogyddion â hetiau madarch gwyn. Peidiwch ag anghofio'r stondin pizza a phasta! Beth am fwyd Arabaidd neu ydy sushi'n well gyda chi? Gadewch ychydig o le i bwdin! Mae ffynnon siocled draw 'na. Gaf i gynnig diod arall i chi, Madam? Coctels, moctels, gwydraid o siampên efallai?



Mae'r lletygarwch i'r eithaf: cannoedd o ddewisiadau o bob gwlad yn y byd, posibiliadau dirifedi, carwsél lliwgar sy'n wledd i'r llygaid a'r stumog ac, ar ddiwedd y dydd, waled wag. Dim golwg o'r werin bobl; maen nhw'n treulio'u diwrnod yn wahanol iawn, ond dal yn sicrhau nad ydym eisiau am ddim, mewn ffordd Fedowinaidd go iawn.

Brunch dydd Gwener? Dyna yw bywyd yn Dubai yn gryno!

[Type here]

Y Wennol

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

If you would like to try your hand at writing something I would be very pleased to accept your contribution. I wouldn't expect anything beyond what you have learned so far. By using what Welsh you have you will build up confidence and the more confident you feel then the happier you will be with your progress.

Your contribution will help others like you – the more there is to read, the more people will learn.

Geirfa

Eisoies – already
Sanctaid – holy
Gwrogaeth – homage
Sefydliad – institution
Diderfyn – non-stop
Amgylchedd – environment
Moethus – luxurious
Bob cwr o'r byd – all corners of the world
Gŵyl – feast
Ymbleseru – to indulge in pleasure
Band arddwrn – wristband
Diodydd meddal – soft drinks
Neuaddau bwyta – dining halls
Atseinio – to echo
Amrywiol – varied
Diddiwedd – unending
Gorchuddio – to cover
Lliain gwyn – White sheet
Pentyrrau – piles
Wystrys – oysters
Rhuthro – to rush
Gweini – to serve
Hetiau madarch – chef's hats
Ffynnon siocled – chocolate fountain
I'r eithaf – to the extreme
Dirifedi – countless
Gwledd i'r llygaid – a feast for the eyes
Brodorion – the local people
Sicrhau – to ensure
Bedowinaidd – in the Bedouin style
Yn gryno – in a nutshell

Cyfrol 2 Rhif 1

Dysgwch ein Hanes

gan Rob Evans

Dyma rhai o lyfrau gan yr awdur Angharad Tomos a oedd ei hun yn brysur iawn yn ymladd dros yr iaith. Maen nhw werth eu darllen.

Paent! – yn adrodd hanes paentio dros arwyddion uniaith Saesneg.

Darn Bach o Bapur - hanes teulu'r Beazleys o Langennech a oedd wedi gwrthod talu'r dreth i Gyngor Llanelli tan iddyn nhw gael ffurflen ddwyieithog. Rywbeth dan ni'n cymryd yn ganiataol y dyddiau yma.

Henriet y Syffrajet - hanes y Syffrajets i gael pleidlais i ferched, cam mawr ym mrwydr merched am gydraddoldeb. Brwydr sydd dal yn mynd ymlaen.

Ewch at eich siop leol ond y cyhoeddwyd yw Gwasg Carreg Gwalch, Llanrwst.

www.carreg-gwalch.com

Dros y misoedd nesaf mi fydden ni'n adolygu'r llyfrau yma. Maen nhw wedi eu hysgrifennu ar gyfer plant yn eu harddegau. Ac yn ffordd dda o ehangu eich geirfa a'ch gwybodaeth am hanes yr iaith.

Waw – am Wawr!

gan Rob Evans



Fel mae bron pawb yn y byd yn gwybod erbyn hyn dw i'n mynd allan am dro yn gynnar bob bore ac mae rhywbeth i'w weld bob tro. Dw i'n dechrau'n gynharach erbyn hyn achos mae hi'n

[Type here]

Y Wennol

Cyfrol 2 Rhif 1

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

goleuo'n gynharach bob dydd. Mae'n braf bod allan i sylweddoli hyn achos mae'n arwydd gref bod y Gwanwyn ar y ffordd - y tymor mwyaf trawiadol o'r pedwar. Cyn bo hir mi fydd y byd yn llawn lliwiau a bydd ein calonnau'n codi ac mi ydym ni i gyd angen hynny!

Ychydig o ddyddiau yn ôl, munudau cyn toriad y wawr, mi nes i gau'r drws i ddechrau ar fy nhaith. Wrth droi'r cornel gyntaf welais i'r awyr yn goch uwch fy mhen, stribedi o gymylau coch yn creu patrwm dim ond byd natur all greu mor effeithiol. Dysgais nes ymlaen mai bai'r Sahara oedd hyn am fod gwyntoedd cryf wedi codi tywod i fyny i'r awyr a'i gludo'r holl ffordd i Gymru fechan.

Wrth i mi gerdded ymlaen roeddwn i'n cadw fy llygaid ar yr awyr a gweld y darlun yn datblygu. Dydy pethau fel hyn ddim yn parhau am yn hir, dim ond am ychydig o funudau. Cyn hir roeddwn wedi cyrraedd y gornel ac roedd rhaid troi fy nghefn ar yr awyr coch. O fy mlaen i rŵan roedd yr awyr yn fwy pinc ond welais i hefyd rywbeth oedd yn edrych fel llwybr anwedd (vapour trail).

Meddyliais fod hyn braidd yn od achos does dim llawer o awyrennau yn yr awyr y dyddiau yma ac roeddwn i'n syllu ar hyn er mwyn trio gweithio allan beth oedd o. Yn raddol roedd lliwiau'n datblygu a sylweddolais fod i'n syllu ar enfys yn ffurfio. Dyma fi'n sefyll yng nghanol y lôn yn syllu ac yn gweld y bwa yn datblygu. Roedd y profiad yn drawiadol! Mi oeddwn i'n gallu gweld bod y coes chwith yn cyrraedd y ddaear rywle ar y traeth ond yn fwy o ddiddordeb i mi oedd ble oedd y coes de yn cyrraedd y ddaear! Mae'n anodd credu ond roedd y coes de yn siŵr o fod yn cyrraedd y ddaear yn fy ngardd cefn. Wel am lwc ynte! Mi fydda i'n siŵr o gofio mynd allan efo rhaw yn syth ar ôl cyrraedd adref. O'r diwedd mi fydda i'n gyfoethog dros ben.

Treuliais weddill fy nhaith yn breuddwydio am beth fydda i'n gallu gwneud efo'r holl gyfoeth. A

fydda i'n cael car newydd? Na, dw i ddim yn meddwl, dw i'n ddigon bodlon efo fy nghar. Prynu tŷ newydd? Na, doedd hynny ddim yn apelio chwaith, mae'r coed afalau nes i blannu pum mlynedd yn ôl wedi aeddfedu ac yn ffrwytho. Mynd ar wyliau i'r ynys gorau yn y byd? Ia, dyna be wna i a bydd gwyliau yn sir Fôn ddim yn gostus chwaith. Sorted! Fel mae'r Sais yn dweud.

Rywbeth i edrych ymlaen amdani ynte!

Wel roeddwn i ar y ffordd i'r cwt i nôl y rhaw pan welais dwll mawr yn y lawnt. O na! Mae rhywun wedi cyrraedd o'm mlaen i! Dyma fi'n sefyll ac yn syllu ar y twll gwag yn y lawnt, hynny yw roedd yn wag heblaw am yr amlen ar y gwaelod. Plygais i lawr i'w godi, agorais a thynnu allan neges fer.

“Annwyl Rob. Diolch am gymryd dy amser ar dy daith cerdded y bore 'ma a gobeithio nad wyt yn meindio i fi a'r tylwyth dwyn dy drysor. Mae'n rhaid i ti gofio bod rhai pobl yn dlotach na chdi ac ein gwaith ni yw edrych ar ôl y bobl yna.

Pob hwyl i ti oddi wrth Twm Teg a'r Tylwyth”

Wel, chwarae teg i'r Tylwyth Teg ynte!



Pasg Hapus i chi i gyd oddi wrth Michael a Hilary.



Mae'r Pasg eleni yn teimlo mor wahanol. Rwy'n teimlo ein bod wedi bod ar ymryd y Grawys o fis Mawrth 2020 hyd at nawr.

Roedd y cyfnod hwn hefyd yn draean o weinidogaeth Iesu.

Rwy'n gweld hynny'n eithaf anhygoel. Paciodd Iesu gymaint i'w weinidogaeth mewn cyfnod o ansicrwydd, teiffoid, colera, difftheria a pholio yn ogystal â'r gwahanglwyf. Ac eto trwy gydol y cyfan dysgodd sicrwydd cariad Duw, sicrwydd gofal Duw dros bobl a'r greadigaeth.

Wrth i ni ddathlu dydd Gwener y Groglith hon gallwn edrych ar y groes a gwybod sicrwydd cariad Duw sy'n mynd yr holl ffordd i farwolaeth ofnadwy drostom ni.

Yna wrth inni ddathlu'r Pasg gallwn edrych ar y bedd gwag a gwybod sicrwydd gwrth Duw o fywyd newydd a sicrwydd bywyd tragwyddol.

Aleliwia! Atgyfododd Crist.

Marc 16

'Peidiwch ag arswydo. Yr ydych yn ceisio Iesu, y gŵr o Nasareth a groeshoeliwyd.'

'Nid yw ef yma, oherwydd y mae wedi ei gyfodi, fel y dywedodd y byddai; dewch i weld y man lle



bu'n gorwedd. Ac yna ewch ar frys i ddweud wrth ei ddisgyblion.'

'Ond i'w tyb hwy, ffôl oedd yr hanesion hyn, a gwrthodasant gredu'r gwagedd. Ond cododd Pedr a rhedeg at y bedd; plygodd i edrych, ac ni welodd ddim ond y llieiniau. Ac aeth ymaith, gan ryfeddu wrtho'i hun at yr hyn oedd wedi digwydd.'




Y gwyliau pwysicach yn y byd Cristnogol yw'r Nadolig a'r Pasg. Y Pasg yw'r bwysicach ond mi ydan ni'n ystyried y penwythnos mwy fel gŵyl banc. Treuliwch ychydig o'ch amser ar ddydd Gwener a dydd Sul wrth eich meddyliau.

Pasg hapus i chi - Rob

“O! Tyn Y Gorchudd”

gan Angharad Price

Adolygiad gan Martin Jones



Hunangofiant dychmygol hen fodryb yr



awdur yw hwn. Mae teitl y nofel yn dod o emyn adnabyddus Hugh James, Maesglasau, a chyfeirio at ddallineb tri o frodyr y teulu ac efallai hefyd at ddallineb y rhai sydd yn parhau'n anymwybodol o sefyllfa enbydus eu diwylliant ieithyddol.

Lleolir y nofel yng Nghwm Maesglasau yng Nghanolbarth Cymru lle'r oedd y teulu wedi byw a ffermio ers mil o flynyddoedd. Mae Angharad Price yn cyflwyno stori stoiciaeth y teulu yn wyneb caledi bywyd beunyddiol a chyfres o drasiediau teuluol. Ac ar yr un pryd, mae gennyn ni hanes bywyd mewn ardal wledig Gymreig a sut newidiodd hyn yn ystod yr ugeinfed ganrif. Mae portreadau aelodau'r teulu'n gryf iawn, ac mor fyw yw'r disgrifiadau o'r ardal bod y cwm ei hun fel cymeriad arall.

Er taw dim ond nofel fer yw'r nofel hon, mae'n teimlo'n llawer hirach nag ei chant a hanner o dudalennau, a chanlyniad economi iaith yr awdur yw hyn. Gall Angharad Price beintio darlun byw mewn ychydig o eiriau: er enghraifft, pan mae hi'n siarad am hebog yn hela grugiar, “lladdfa lân y fwled dur o blu” yw ei disgrifiad. Ac mewn adroddiad torcalonnus ynglŷn â marwolaeth

drist un o blant y teulu'n bythefnos oed, mae naw gair “Do, parhaodd bwtsias y gog yn hwy na hi” yn cyfleu cymaint o dristwch a thrasiedi.

Mae'n nofel lenyddol iawn, ac weithiau mae tipyn yn anodd i ddysgwyr. Ond cymaint yw harddwch yr iaith fel bod yr ymdrech yn hollol werth chweil. Byddwn i'n cymeradwyo'r fersiwn ddwyieithog er mwyn cael gweld y Gymraeg a'r Saesneg ochr yn ochr.

Mae rhan fwyaf o'r llyfr yn cael ei sylfaenu ar ddigwyddiadau gwir ac ar hanes teulu'r awdur. Felly, ffuglen neu ffaith yw'r hanes hwn? Mae unrhyw amheuaeth yn cael ei chwalu gan dair brawddeg olaf syfrdanol y gyfrol rymus hon.

Tafodiaith

gan Susan Gilson



Fel y nodwyd yn rhifyn mis Ionawr o'r cylchgrawn, mae grŵp siarad Cymraeg Southgate yn ffynnu ac yn tyfu o nerth i nerth. Rydym yn cael trafodaethau bywiog ac yn sylweddoli pwysigrwydd gwranddo a dysgu oddi wrth ein gilydd. Rydyn ni'n helpu ein gilydd, a beth bynnag yw ein lefel o allu siarad Cymraeg, rydyn ni'n parchu ac yn annog ein gilydd. Mae hyn yn rhoi hwb mawr i'r hyder.

Mae'r mwyafrif yn ein grŵp naill ai'n mynychu neu wedi bod yn mynychu dosbarthiadau Cymraeg. Maent wedi dysgu neu yn dysgu'r iaith “o'r dechrau” fel petai.

Mae rhai ohonom yn y grŵp o gefndir Cymraeg, wedi tyfu fyny heb yr iaith ond yn ei chlywed yn cael ei siarad efallai ymhlith ein neiniau a theidiau neu rhwng nain a thaid a rhiant. Ni yw'r genhedlaeth ‘a gollwyd’. Rydym yn sylweddoli pwysigrwydd gwarchod ein treftadaeth, iaith ein hardal, iaith yr aelwyd. Mae gan bob ardal o'n gwlad ei dafodiaith ei hunan ac mae hyn yn ychwanegu at gyfoeth a harddwch ein hiaith a

dylem fod yn falch ohoni. Yn aml rydyn ni'n cael ein cydnabod gan ein tafodiaith. Rwy'n cofio fel myfyriwr yng Nghaerfyrddin yn cyfarfod yn wythnosol yn ein hoff gyrchfan, "Y Ceffyl Du" a dieithryn yn dod ataf a dweud "Rydych chi'n dod o Gwm Aman onid ydych chi?" Dywedodd ei fod wedi cydnabod y dafodiaith.

Roeddem yn trafod pwysigrwydd hyn yn ein grŵp pan wnaethom sôn am y gair 'cwnnu' mae rhai ohonom yn ei ddweud am godi yn y bore. Dywedodd y rhai sy'n anghyfarwydd â'r gair y byddech yn 'codi' yn y bore. Dilynodd rhywfaint o anghytuno a thrafod ysgafn pan ddoth dynes a dau o blant at y grŵp a chyhoeddi'n hyderus y byddai hi'n dweud 'cwnnu' yn y bore. Aeth bloedd uchel i fyny oddi wrthym ni am ei chefnogaeth. Mae'n digwydd ei bod yn byw yng Nghaerdydd ond yn dod o Bontardawe yn wreiddiol. A dyna oedd diwedd y peth!

Mae mor ddiddorol clywed tafodiaith o wahanol ardaloedd yng Nghymru, ond fel y dywedwyd o'r blaen yn y Wennol, i gadw iaith yn fyw mae'n rhaid ei siarad. P'un a ydych chi'n cyfathrebu trwy'ch tafodiaith leol neu ddull mwy ffurfiol neu hyd yn oed gyfuniad o'r ddau, mae cael yr hyder i ddechrau sgwrs yn Gymraeg yn gam mawr ymlaen. Felly y tro nesaf y byddwch yn pasio rhywun ar y ffordd dywedwch 'Helo, siwd mae?'. Efallai y bydd yr ymateb yn eich synnu ar yr ochr orau !!

Ble dyn ni'n mynd?

gan Jan Hill-Tout



Fel arfer dyn ni'n mynd mewn cylch. Dyna sut mae disgrifio fy nhaith cerdded wythnosol ar hyn

o bryd. Ar y naill law mae rhywbeth cysurus am gerdded llwybrau cyfarwydd tro ar ôl tro ond ar y llaw arall mae braidd yn ddiflas weithiau hefyd. Dw i'n hiraethu am olygfeydd gwahanol!

Dros y blynyddoedd dw i wedi gwneud rhai teithiau cerdded pellter mawr yn dechrau gyda'r Cotswold Way pan o'n i yn fy mhedwardegau, ac wedyn Hadrian's Wall, The Dales Way, The Cumbria Way a Saint Cuthberts Way. Wrth gwrs i ddechrau mae'r pac yn teimlo'n ddrwm ond dych chi'n dod i arfer ag e. Pan dych chi'n cerdded yn agos at y môr neu mewn ardal o fynyddoedd ysblennydd dych chi'n anghofio brathiad y gwynt a'r bwrw glaw ofnadwy - ond nid bob tro. Mae'n brofiad hollol wahanol i gerdded dydd ar ôl dydd ac yn aros rhywle gwahanol pob nos. A dweud y gwir mae'n dipyn bach fel myfyrdod a holl boenau'r byd yn raddol yn diflannu. Mae'n gyffrous dros ben cyrraedd y diwedd, wedi blino'n lân ond hapus ar y naw.

Y llynedd darllenais erthygl am bererindodau ac mae'n amlwg bod eu poblogrwydd wedi tyfu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r nifer o'r pererinion sy'n cerdded i Santiago de Compostela wedi cynyddu 300% ers 1990. Edrychais a'r wefan 'The British Pilgrimage Trust' a gweld bod gymaint o bererindodau ym Mhrydain. Hyd yn oed yng Nghymru mae llawer o ddewis - Taith Pererin Gogledd Cymru, Welsh Cistercian Way, St Illtyd's Way, Llein Pilgrims' Trail, a'r Anglesey Pilgrimage er enghraifft. Dychmygwch fy syndod wrth sylweddoli bod pererindod ar stepen fy nrws sef Ffordd Pererindod Penrhys, 21 milltir o hyd. Mae'n dechrau o Gadeirlan Llandaf ac yn mynd hyd at Penrhys yn y Rhondda (mae gwybodaeth am y llwybr, mapiau, llefydd a hanes ar gael ar y we os hoffech chi gymryd cipolwg arno fe).

Fel canlyniad yn ystod yr haf diwethaf a gyda dim byd arall i'w wneud, ces i fy sbarduno i roi cynnig iddo fe. Darbwyllais fy ffrind i ddod gyda fi a dechreuon ni paratoi. Dyn ni'n gallu deall mapiau (yn fwy neu lai) ond oherwydd y pandemig do'n

[Type here]

Y Wennol

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

ni ddim eisiau rhannu ceir ac wrth gwrs doedd hi ddim yn bosib i ni aros dros nos rhywle. Felly pob Dydd Sul am rhai wythnosau cerddon ni pum milltir o'r daith ac wedyn cerdded yn ôl at y ceir - deg milltir yn gyfan gwbl bob tro. Erbyn y diwedd gwnaethon ni Bererindod Penrhys dwywaith, yn ôl ac ymlaen.



Roedd y daith yn ddiddorol dros ben i fi achos roeddwn i'n dysgu mwy am hanes fy ardal ac yn defnyddio llwybrau newydd i fi mewn llefydd fel Creigiau, Llantrisant, Pant-y-Brâd a Drebanog.


Yn ôl y wefan Ffordd Pererindod Penrhys pan gyrhaeddodd y Normaniaid yn y 11eg ganrif, allor Teilo Sant yn Eglwys Gadeiriol Llandaf oedd y ganolfan bwysicaf yn Ne Ddwyrain Cymru. Erbyn y 15fed ganrif y safle pererindod fwyaf poblogaidd yn yr ardal oedd cerflun o'r Forwyn Fair a'i Phlentyn uwchben Llwynypia a'r ffynnon gysegredig gerllaw. Yn ystod y Diwygio ym 1538 roedd yr awdurdodau yn poeni gymaint am boblogrwydd Penrhys iddyn nhw roi gorchymyn i Thomas Cromwell i'w symud i Lundain ble cafodd ei losgi'n ulw ynghyd a'r Forwyn Walsingham a'r Forwyn Ipswich.

Dros y blynyddoedd mae poblogrwydd y pererindodau wedi lleihau, ond mae'n amlwg bod diddordeb yn tyfu unwaith eto erbyn hyn. Dw i ddim yn grefyddol ond dw i'n cysylltu â rhywbeth ysbrydol wrth wneud taith cerdded pellter mawr

ac mae'n amlwg dw i ddim ar fy mhen fy hun. Dw i'n edrych ymlaen at y daith nesaf.

Tybed i ble bydda i'n mynd?

Pos Val



Ar Draws

- 1) Llestr i de
- 3) Tan
- 5) Rhesi
- 7) Piau
- 8) Cymwys
- 10) Rhybudd llongau
- 12) Parhau
- 13) Gorffen

I Lawr

- 1) Daear
- 2) Sŵn Cloch
- 3) Hosteli
- 4) Perlysieuyn
- 6) Gorfoleddus
- 7) 60 eiliad
- 9) Deheuig
- 11) Dacw

(Yr wyddor Cymraeg, cofiwch!)

Nodwch fod 5 ar draws wedi ei dreiglo'n feddal

Mae'r atebion ar y dudalen gefn!

Pob lwc!

Remember you are welcome to contribute a story especially if you are in the first and second year. I want simple stories so as to have something for everyone. Don't worry I shall correct everything so that you can be proud of your contribution

I really need your help!

There are certain things that work in Welsh but not in English and vice versa particularly in the world of humour.

Here is an extract from a local paper.

The Lost Lead

On Saturday morning a local woman was walking her dog on the common. There were many dog walkers there and, of course they were all having a good chat whilst their dogs explored the various scents available.

People came and people went, all accompanied by their dogs. Soon only three people and six dogs were left. Debbie (for that is the name of the main character to this story) noticed that one of her leads was missing and started searching the undergrowth. The other two came to help her search. No lead was to be found anywhere and all three returned home with their dogs. Debbie of course had a difficult journey home because Cyril, whose lead was lost, is an excitable dog.

Debbie is a very trusting person and so was confident that someone would find the lead and hand it in to the Police Station. She phoned her local station and spoke to PC Dixon who took her name and telephone number. As soon as he had any news he would let her know.

She was surprised not to have any news after three weeks and wondered if anything had actually been done to ensure the return of her lead.

Poor PC Dixon was surprised at her intense questioning and was upset about the insinuation that CID was treating the matter lightly. He needed a breather. He told her that he would go and talk to the Detective Chief Superintendent.

During the 10 minutes that he was away Debbie had calmed down and PC Dixon was most relieved. He told her that he had had a very useful discussion with the DCS who had assured him

that he had had the full team on the case but in spite of that they had absolutely no leads!

NB I have to tell you that this is based, loosely, on a true story but I have given the lady a different name. On hearing the story I just had to tell it to you especially on this particular day!

Evening all!



Learn Welsh quicker by using the resources available!

Learn by Reading

This article is a translation of the article on the front page. It would have been silly not to do this translation because the message is very important to improving your learning experience.

I knew about the importance of reading years before I became a tutor. As I have said many times before, reading was essential in my journey back to the language. Anyway there was no other way. There was no night school in Welsh in Kidderminster at the time and I was desperate. Had there been a night school I doubt that I would have learnt quite so much.

I had a real yearning to move back to Wales but because I had a business in Kidderminster things were not quite as simple as moving jobs. Much of the books I read at the time were adventure books based somewhere in Wales and my imagination took me to where I wanted to be.

Imagination is a wonderful thing!

But that wasn't the only advantage. It was different to listening to the radio because the words stayed on the page. On the radio many

[Type here]

Y Wennol

Cyfrol 2 Rhif 1

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

people spoke too quickly or they weren't clear enough and once I lost track, that was it.

Reading is much kinder!

You can sit down in front of the fire, a coffee by your side and read at your leisure. If you went to sleep the book was still there, as long as it hadn't fallen on the floor. The secret is not to make reading a burden. Don't search the dictionary for every unfamiliar word or you really will lose the plot – literally.

When you have been scratching your head to try and solve a clue in a crossword puzzle and failing completely it's ok to take a peek in the back of the book to find the answer. By doing that you are making things easier to solve the other clues. The same thing is true with reading, sometimes to go to the dictionary for one word in a hard sentence will help you with the other words. When that happens that means that your brain is working in the same way you learnt your first language.

It's important to give your brain the chance to do that.

It's important too to start with a book that is amusing and one that has been written especially for learners. A book like 'Bywyd Blodwen Jones'. Blodwen is learning Welsh and she is enthusiastic for a particular reason. She has fallen in love with her tutor!

When I told my class in Presteigne that we were going to read a book as part of the course they were very worried for some reason. We spent the last 20 minutes of the lesson reading the book, everyone taking a turn at reading out loud. Very quickly we were having fun. To my great surprise when the class had reached halfway most of them had read to the very end. Quite clearly they could not put the book down.

The book is written in north Wales dialect but don't, don't, don't you in the south think that you wouldn't be able to read it. Contrary to what

people say the dialect is not completely different. Ok so there are different words but English is just the same. The locals in Cornwall speak differently to natives of the north of England. It's just a case of getting used to it and it's much easier to do that by reading.

And just to be fair to you in the south, don't you in the north think that books written in south Wales dialect are too difficult. Welsh life is more pleasurable and more complete if you can all understand each other. Go for it!

I'm sure you will be able to get the book in your local library. If not, go to your local Welsh book shop, you will get the chance to practise your Welsh there too. You won't be wasting your money, it's a book that you will be happy to read many times.

So reading books helps you to develop your vocabulary but think about this. Welsh is a great deal more obvious in Wales than it was decades ago and it is those who were happy to go to prison for the Welsh cause that we have to thank for that. There were many of them and I really feel that we should learn more about them. They are the ones who ensured that we are 'Still here'. Without them we would have no language to learn by now!

So launch yourselves into reading and learning but be careful because it is very easy to go over the top with books. I have a house full of them but each one of them is a dear friend.

Best of luck to you!

So why wait!
GET ON NOW!

Geirfa

Dysgwch wrth Ddarllen

Pwysigrwydd – importance

Hollbwysig – essential

Llyfrau antur – adventure books

Wedi ei seilio – based on

Aneglur – unclear

Colli'r trywydd – lose track

Cyn belled – as long as

Bwrn – burden

Yn llythrennol – literally

Brwdfrydig – enthusiastic

Llanandras – Presteigne

Er syndod i mi – to my surprise

Yn hollol groes – contrary to

Trigolion Cernyw – the people of Cornwall

Cyflawn – complete

Dros ben llestri – over the top

Dysgwch ein hanes

Arwyddion – signs

Cymryd yn ganiataol – to take for granted

Pleidlais – the vote

Cydraddoldeb – equality

Waw – am Wawr!

Yn gynharach – earlier

Arwydd gref – a strong sign

Trawiadol – striking

Toriad y wawr – the break of dawn

Stribedi – streaks

Cludo – to carry

Yn raddol – gradually

Datblygu – to develop

Syllu – to stare

Enfys – rainbow

Bwa – bow

Ffurio – to form

Am lwc – what luck

Rhaw – spade

Bodlon – satisfied

Aeddfedu – to mature

Cwt – shed

Twll gwag – an empty hole

Amlen – envelope

Tylwyth – family

Tlotach – poorer

Tylwyth Teg – the Little People, fairies

Y Pasg

Y Pasg – Easter

Ympryd y Grawys – Lenten fast

Traean – a third

Gweinidogaeth – ministry

Anhygoel – unbelievable

Gwahanglwyf – leprosy

Trwy gydol y cyfan – throughout all of it

Dydd Gwener y Grogllith – Good Friday

Bedd gwag – empty grave

Gwyrth – miracle

Bywyd tragwyddol – everlasting life

Arswydo – to fear

Ceisio – to seek

Croeshoelio – to crucify

Cyfodi – to rise

Gorwedd – to lie (down)

Tyb – opinion

Ffôl – foolish

Gwrthod – to refuse

Lleiniau – sheets

O Tyn y Gorchudd!

Hunangofiant – autobiography

Dychmygol – imaginary

Emyn adnabyddus – well known hymn

Cyfeirio at – to refer to

Dallineb – blindness

Parhau – to carry on

Anymwybodol – to be unaware of

Sefyllfa enbyddus – dangerous situation

Stoiciaeth – stoical

Bywyd beunyddiol – daily life

Canlyniad – result

[Type here]

Y Wennol

Cyfrol 2 Rhif 1

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - bobwennol@ntlworld.com

Hebog – hawk
Grugiar – red grouse
Lladdfa – killing place
Bwled dur o blu – steel bullet of feathers
Torcalonnus – heartbreaking
Bwtsias y gog – bluebell
Cymeradwyo – to recommend
Sylfaenu ar – based on
Ffuglen – fiction

Tafodiaith

Yn fynnu – to thrive
Parchu – to respect
Annog – to encourage
Fel petai – as it were
Ymhlith – among
Treftadaeth – inheritance
Gwarchod – to protect
Iaith yr aelwyd – the language of home
Tafodiaith – dialect
Cyfoeth – richness
Cydnabod – to recognise
Cyrchfan – meeting place
Dieithryn – a stranger
Anghyfarwydd – unfamiliar
Anghytuno – to disagree
Trafod ysgafn – light discussion
Cyhoeddi'n hyderus – announced confidently
Bloedd uchel – a loud shout
Synnu ar yr ochr orau – to be pleasantly surprised.

Ble dyn ni'n mynd?

Pellter mawr – long distance
Ysblennydd – splendid
Brathiad gwynt – bite of the wind
Myfyrdod – meditation
Ar y naw – extremely
Pererindod – pilgrimage
Pererin – pilgrim

Cipolwg – a glance
Fel canlyniad – as a result
(Y)sbarduno – to spur
Darbwyllo – to convince
Allor – altar
Canolfan – a Centre
Cerflun – statue
Y Forwyn Fair – the Virgin Mary
Cysegredig – sacred
Gerllaw – nearby
Diwygiad – Reformation
Gorchymyn – (an) order
Llosgi'n ulw – to burn to ashes
Crefyddol – religious
Ysbrydol – spiritual

Croesair – atebion

Ar draws

- 1) Tebot 3) Nes 5) Rubanau 7) Meddu
8) Addas 10) Goleudy 12) Dal 13) Cwpla

I lawr

- 1) Tir 2) Tinc 3) Neuaddau 4) Speis
6) Buddugol 7) Munud 9) Slic 11) Yna